Scouts Cymru

# Bathodyn Her Hawliau

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales









Mewn partneriaeth â

Girlguiding Cymru

# Cyflwyniad i'r pecyn - Bathodyn Her Hawliau Cymru

**Crewyd y Bathodyn Her Hawliau i chi, er mwyn i chi ddysgu am hawliau plant a rôl Comisiynydd Plant Cymru.**

**Mae'r adnodd yma wedi cael ei baratoi ar gyfer gweithwyr, i hwyluso gweithgareddau oed-briodol. Erbyn diwedd y gweithgareddau hyn bydd pob oed yn:**

## 1
## Gwybod eich hawliau

Gwybod llawer am hawliau plant. Mae'r holl hawliau sydd gen ti wedi'u hysgrifennu ar restr fawr o'r enw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae copi yma.

## 2
## Adnabod eich Comisiynydd Plant Cymru

Gwybod am Gomisiynydd Plant Cymru a gwybod ble gallet ti gael rhagor o wybodaeth am dy hawliau.

Mae rhagor o wybodaeth yma.



## 3
## Ennill bathodyn

Gallu cwblhau her i gael dy fathodyn.



**I gael posteri neu adnoddau eraill (mae rhestr yng nghefn y pecyn) e-bostiwch post@complantcymru.org.uk**

## Tabl cynnwys

02
Cyflwyniad i'r pecyn - Bathodyn Her Hawliau Cymru
04
Geirfa allweddol
05
Beth sydd ei angen arnoch chi
06
Gweithgaredd Gwiwerod
09
Gweithgaredd Afancod
13
Gweithgaredd Cenawon
17
Gweithgaredd Sgowtiaid
21
Gweithgaredd Anturiaethwyr
25
Beth nesa - bathdoyn a chyfeirio ymlaen
26
Atodiad
27
Manylion cyswllt

Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Geirfa allweddol

## CCUHP


Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP): y ddogfen ryngwladol sy'n cyflwyno hawliau plant.

## Hawliau

Pethau rwyt ti angen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel – weithiau maen nhw'n cael eu galw'n Erthyglau.

## CPC

Comisiynydd Plant Cymru: "Oedolyn yng Nghymru sy'n gweithio i helpu pob plentyn yng Nghymru i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel"







Scouts Cymru


Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Beth sydd ei angen arnoch chi



Mae pedwar gweithgaredd ac rydym wedi cynnwys rhai templedi ar gyfer rheini. Mae gennym boster hawliau y gallwch ei lawrlwytho neu cysylltwch â ni a byddwn yn anfon copi atoch.

Mae'r gweithgareddau'n annog y grŵp i fod mor greadigol â phosibl ynglŷn â sut i gwblhau'r gweithgareddau. Gallech chi ddefnyddio:



Papur



Siswrn



Peniau



Pensiliau Lliw




Pensiliau



Dyfais a rhyngrwyd



Tâp




Taflenni




Creonau



Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Squirrels

I gyflawni'r nodau a amlinellwyd yn y cyflwyniad mae gennym ni rai opsiynau i chi rannu gyda'r gwiwerod, a chewch chi benderfynu fyddwch chi'n Squirrels hynny mewn un sesiwn neu dros nifer o sesiynau sydd gennych chi gyda'r grŵp.

Gweithgaredd 1

4-6 oed

# Dysgu llawer am CCUHP

I'r grŵp oed yma rydyn ni'n esbonio hawliau fel y pethau mae ar bob plentyn eu hangen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Gallwch chi ddefnyddio:
Ein Cân – yma – geiriau - yma a rhannu'r poster - yma

## Prif weithgaredd

Bydd hyn yn cymryd 20 munud; Bydd angen – taflenni, siswrn, gofod

## Eisiau neu Angen

Gan ddefnyddio'r daflen yma: Gofynnwch i'r plant archwilio'r gwahaniaeth rhwng eisiau ac angen trwy ddefnyddio'r lluniau, gallan nhw weithio mewn parau neu grwpiau bach. Gallan nhw greu dau bentwr ar fwrdd neu gallwch chi ddefnyddio'r lle yn yr ystafell e.e. cornel eisiau a chornel angen, a chwarae hyn fel gêm wrth ofyn i'r plant fynd i'r gornel gywir e.e. ydy hwn yn llun o rywbeth mae plant eisiau neu angen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

## Crynodeb

Atgoffa plant bod ganddyn nhw i gyd restr o bethau maen nhw angen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel, ac mai dyna sydd yn y rhestr hir o'r enw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).



Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Squirrels

Gweithgaredd 2

4-6 oed

# Gwybod am Gomisiynydd Plant Cymru:

## Prif weithgaredd

Bydd hyn yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen – papur, peniau, creonau.

## Comisiynydd

Gallwch chi esbonio bod gennym ni berson o'r enw Comisiynydd Plant yng Nghymru, ac mai eu gwaith nhw yw sefyll i fyny dros blant a phobl ifanc, i helpu i sicrhau eu bod nhw'n derbyn eu hawliau – y pethau maen nhw angen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Gallwch chi weld llun ohonyn nhw yma, gallwch chi ddysgu amdanyn nhw yma, ac mae hynny'n cynnwys fideo fer – yma.

## Crynodeb

Ar ôl gwylio hwn, gofynnwch i'r grŵp beth ddysgon nhw.



Squirrels

Gweithgaredd 3

4-6 oed

# Cwblhau'r sialens i gael bathodyn

## Paratoi


Bydd hyn yn cymryd 20 munud; Bydd angen – papur, peniau, creonau.

## Prif weithgaredd

Er mwyn cael bathodyn, rhaid i'r Gwiwerod dynnu llun o beth neu pwy sy'n eu helpu i gadw'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

## Crynodeb

Ar ôl gwneud y dasg hon gofynnwch i'r grŵp beth ddysgon nhw.



Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Gweithgaredd
1

6-8 oed

I gyflawni'r nodau a amlinellir yn y cyflwyniad, mae gennym rai opsiynau i chi eu rhannu gyda'r Afancod. Cewch chi benderfynu fyddwch chi'n gwneud hynny mewn un sesiwn neu mewn nifer o sesiynau sydd gennych chi gyda'r grŵp.

# Dysgu llawer am CCUHP

**I'r grŵp oed yma rydyn ni'n esbonio hawliau fel y pethau mae ar bob plentyn eu hangen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.**
**Gallwch ddefnyddio: Ein Cân – yma – geiriau – yma a rhannu'r poster – yma**

## Prif weithgaredd

**Bydd hyn yn cymryd 20 munud; bydd angen – taflenni, sisyrnau, gofod**

## Eisiau neu Angen

**Gan ddefnyddio'r daflen** yma: **Gofynnwch i'r plant archwilio'r gwahaniaeth rhwng eisiau ac angen trwy ddefnyddio'r lluniau, gallan nhw weithio mewn parau neu grwpiau bach. Gallan nhw greu dau bentwr ar ben bwrdd neu gallwch chi ddefnyddio'r lle yn yr ystafell e.e. cornel eisiau a chornel angen, a chwarae hyn fel gem trwy ofyn i'r plant fynd i'r gornel gywir e.e. ydi hwn yn llun o rywbeth mae plant eisiau neu angen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.**

## Gweithgaredd ychwanegol

**Bydd hyn yn cymryd 15 munud; Byddwch chi angen – lle. Gan ddefnyddio tri darn o A4 paratowch dri mat – Ie, Na a Falle.**

**Rhowch y matiau mewn gwahanol rannau o'r ystafell. Esoboniwch wrth yr Afancod eich bod chi'n mynd i ofyn cwestiynau iddyn nhw ac y gallan nhw sefyll wrth y mat sy'n adlewyrchu eu hateb. Defnyddiwch y poster i gysylltu ag erthyglau.**




PTO

BEAVERS

Gweithgaredd 1

6-8 oed

# Dysgu llawer am CCUHP

## Cwestiynau i'w gofyn:

1. Mae hawliau plant i blant 3–18 oed. (Na – atgoffwch y disgyblion fod gan BOB plentyn 0-18 oed hawliau plant – Erthygl 1).

2. Dylai oedolion wneud beth sydd orau i blant (Ie – mae hyn yn cysylltu ag Erthygl 3)

3. Mae gan blant hawl i fwyta siocled bob dydd (Na – mae ganddyn nhw hawl i fod mor iach â phosibl – Erthygl 24)

4. Mae gan blant hawl i gael eu cadw'n ddiogel (Ie – cysylltiad ag Erthygl 19)

5. Mae gan bob plentyn hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â chlybiau – fel hwn! (Ie – cysylltiaf ag Erthygl 15)

6. Mae gan blant hawl i ffôn symudol (Na– er y gallai hynny helpu i'w cadw'n ddiogel, ame rhestr yma i BOB plentyn yn y byd, ac fe gafodd ei llunio yn 1989 - does dim hawl i gael ffôn symudol)

## Crynodeb

Atgoffwch y plant bod gan bawb ohonyn nhw restr o'r pethau maen nhw angen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel ac mai enw'r rhestr hir yna yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).



Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Gweithgaredd 2

6-8 oed

# Dysgu am Gomisiynydd Plant Cymru:

## Prif weithgaredd

**Bydd hyn yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen – mynediad i'r rhyngrwyd neu boster hawliau.**

## Comisiynydd

Gallwch chi esbono bod gennym ni berson o'r enw Comisiynydd Plant yng Nghymru, ac mai eu gwaith nhw yw sefyll i fyny dros blant a phobl ifanc, i helpu i wneud yn siŵr eu bod nhw'n derbyn eu hawliau. Gallwch chi weld llun ohonyn nhw yma, gallwch ddarganfod amdanyn nhw yma, ac mae hyn yn cynnwys fideo byr yma.
Ar ôl gwylio'r fideo, gofynnwch i'r grŵp beth ddysgon nhw.

Gallwch chi rannu'r fideo yma i grynhoi CCUHP a CPC (rydyn ni'n meddwl hyd at 3 munud 10 eiliad - ond gallwch chi ddangos y cyfan)

## Crynodeb

Ar ôl gwylio hwn gofynnwch i'r grŵp beth ddysgon nhw.



# Cwblau'r her i gael bathodyn

Gweithgaredd 3

6-8 oed

## Paratoi

Bydd gweithgaredd i) yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen – papur, peniau, creonau. Bydd gweithgaredd ii) yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen – mynediad i'r rhyngrwyd.


## Gweithgaredd

i) Tynnu llun o beth neu pwy sy'n eu helpu i gadw'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

ii) Cymryd rhan yn un o'n Materion Misol - Bydd hyn yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen – mynediad i'r rhyngrwyd.
https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/mater-y-mis/

## Crynodeb

Ar ôl gwneud y dasg hon gofynnwch i'r grŵp beth ddysgon nhw.





Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

cubs

I gyflawni'r nodau a amlinellwyd yn y cyflwyniad, mae gennym ni rai opsiynau i chi eu rhannu gyda'r Cenawon. Cewch chi benderfynu ydych chi am wneud un sesiwn, neu dros nifer o sesiynau sydd gennych chi gyda'r grŵp.

Gweithgaredd 1

8-10 ½ oed

# Dysgu llawer am CCUHP

Ar gyfer grŵp oed yma gallwn ni ddatblygu iaith hawliau fel pethau mae ar bob plentyn euhangen ar bob plentyn i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel, a sôn am y cysyniadau o hawliau fel pethau rydych chi angen ac yn eu haeddu.

## Prif weithgaredd

Bydd hyn yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen – papur A4, peniau a chopïau o'r poster hawliau neu'r pecyn symbolau (gweler yr atodiad)

## Corff o Hawliau

i) Lluniwch amlinelliad o berson sinsir ar bapur A4

ii) Meddyliwch am 5 peth mae ar blant eu hangen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel – dyna beth yw hawliau!

iii) Ysgrifennwch nhw tu mewn i'r person neu defnyddiwch hyn yn gyfle i ddefnyddio deunyddiau celf a chrefft e.e. papur newydd/cylchgronau i gael hyd i eiriau/luniau sy'n dangos beth sydd ei angen ar blant i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

iv) Mynnwch gopi o'r poster "Deall Eich Hawliau" neu'r Pecyn Symbolau

v) Edrychwch i weld ydy'r erthyglau (hawliau) yn cyfateb i'r pum peth rydych chi wedi'u nodi

vi) Nodwch unrhyw hawliau eraill rydych chi'n meddwl sy'n bwysig i dyfu i fyny'n "hapus, yn iach a cc yn ddiogel"

vii) Gallwch chi ychwanegu enwau pobl tu allan i'r person sy'n eich helpu i gael eich hawliau e.e. rhieni, athrawon, heddlu ac ati.

Rhowch gyfle i'r grŵp rannu eu darluniau a'u hawliau ac atgoffwch nhw y gallan nhw ychwanegu'r Comisiynydd Plant at enwau'r bobl sy'n helpu i gael eu hawliau.

PTO

cubs

Gweithgaredd 1

8-10 ½ oed

# Dysgu llawer am CCUHP

## Gweithgaredd ychwanegol

Bydd hyn yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen tri darn o bapur A4 i greu tri mat – Ie/ Na a Falle, i'w rhoi mewn gwahanol rannau o'r ystafell.

## Cwestiynau i'w gofyn

Esboniwch i'r Cenawon eich bod chi'n mynd i ofyn cwestiynau iddyn nhw ac y gallan nhw sefyll wrth y mat sy'n adlewyrchu eu hateb. Defnyddiwch y poster i'w atgoffa.

1. Wyt ti'n teimlo bod oedolion yn gwrando arnat ti? (Cysylltiad ag Erthygl 12) – os na, pwy sydd yn gwrando arnat ti?


2. Wyt ti'n cael cyfle i ymlacio a chwarae? (Erthygl 31) – Os na, beth sy'n dy stopio di?

3. Wyt ti'n meddwl dylai plant fwyta McDonalds bob dydd? Na (Erthyglau 24 a 3 – rhaid i oedolion wneud beth sydd orau i ti, ac mae gen ti hawl i fod yn iach)

4. Wyt ti'n meddwl bod pob plentyn yng Nghymru yn cael eu hawliau? Os na, pwy sydd ddim o bosib?

## Crynodeb

Atgoffwch y plant fod gan bawb ohonyn nhw hawliau a bod rhestr yma o hawliau – sy'n cael eu galw'n erthyglau - yn rhestru'r holl bethau maen nhw angen i dyfu fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Enw'r rhestr hir yma yw CCUHP.
tinyurl.com/CCFWPDFposter




Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

cubs

Gweithgaredd 2

8-10 ½ oed

# Dysgu am Gomisiynydd Plant Cymru:

## Prif weithgaredd

Bydd hyn yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen – mynediad i'r rhyngrwyd neu boster hawliau.

## Comisiynydd

Gallwch chi esbonio bod gennym ni berson o'r enw Comisiynydd Plant yng Nghymru, ac mai eu gwaith nhw yw sefyll i fyny dros blant a phobl ifanc, i helpu i sicrhau eu bod nhw'n cael eu hawliau. Gallwch chi weld llun ohonyn nhw yma, gallwch ddarganfod amdanyn nhw yma, gan gynnwys fideo fer - yma.
Ar ôl gwylio'r fideo, gofynnwch i'r grŵp beth ddysgon nhw.

Gallwch rannu'r fideo yma i grynhoi CCUHP a CPC

## Crynodeb

Ar ôl gwylio hwn gofynnwch i'r grŵp beth ddysgon nhw.



# cubs



# Cwblhau'r her i gael bathodyn

## Paratoi

Bydd gweithgaredd i) yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen – papur, peniau, creonau.
Bydd gweithgaredd ii) yn cymryd 40 munud; Byddwch chi angen – mynediad i'r rhyngrwyd.

## Gweithgaredd

i) Cwblhau'r prif weithgaredd a thynnu lluniau Corff o Hawliau.

ii) Bod yn rhan o DDAU o'n Materion Misol (mae pob un yn cymryd 20/30 munud a bydd angen mynediad i'r rhyngrwyd arnoch chi)
https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/mater-y-mis/

## Crynodeb

Ar ôl gwneud y dasg hon gofynnwch i'r grŵp beth ddysgon nhw.



Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

SCOUTS

Gweithgaredd 1

10 ½-14 oed

Il gyflawni'r nodau a amlinellwyd yn y cyflwyniad mae gennym ni rai opsiynau i chi eu rhannu gyda'r Sgowtiaid. Cewch chi benderfynu ydych chi am wneud hynny mewn un sesiwn, neu mewn nifer o sesiynau sydd gennych chi gyda'r grŵp.

# Dysgu llawer am CCUHP

**Yn achos pobl ifanc rydyn ni'n defnyddio iaith hawliau. Mae pawb ohonon ni'n cael ein geni â Hawliau Dynol, ond mae gan blant a phobl ifanc restr ychwanegol o hawliau, sef Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – sydd ar gyfer pawb o 0 – 18 oed.**

## Prif weithgaredd

**Bydd hyn yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen – papur A4, peniau a chopïau o'r poster hawliau neu'r pecyn symbolau (gweler yr atodiad)**

## Corff o Hawliau

**i) Lluniwch amlinelliad o berson sinsir ar bapur A4**

**ii) Meddyliwch am 5 peth mae ar blant eu hangen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac. yn ddiogel – dyna beth yw hawliau!**

**iii) Ysgrifennwch nhw tu mewn i'r person neu defnyddiwch hyn yn gyfle i ddefnyddio deunyddiau celf a chrefft e.e. papur newydd/cylchgronau i gael hyd i eiriau/luniau sy'n dangos beth sydd ei angen ar blant i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel**

**iv) Mynnwch gopi o'r poster "Deall Eich Hawliau" neu'r Pecyn Symbolau**

**v) Edrychwch i weld a ydy'r erthyglau (hawliau) yn cyfateb i'r pum peth rydych chi wedi'u nodi**

**vi) Nodwch unrhyw hawliau eraill rydych chi'n meddwl sy'n bwysig i dyfu i fyny'n "hapus, yn iach ac yn ddiogel"**

**vii) Gallwch chi ychwanegu enwau pobl tu allan i'r person sy'n eich helpu i gael eich hawliau e.e. rhieni, athrawon, heddlu ac ati.**

**Rhowch gyfle i'r grŵp rannu eu darluniau a'u hawliau ac atgoffwch nhw y gallan nhw ychwanegu'r Comisiynydd Plant at enwau'r bobl sy'n eu helpu i gael eu hawliau.**

PTO

SCOUTS

Gweithgaredd 1

10-14 oed

# Dysgu llawer am CCUHP

## Gweithgaredd ychwanegol

Camu Allan - content/uploads/2022/05/Camu-Allan-Dwyieithog.pdf
Bydd hyn yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen y daflen uchod a siswrn

## Crynodeb

Atgoffwch y plant fod gan bawb ohonyn nhw hawliau a bod y rhestr yma o hawliau – sy'n cael ei alw'n yn erthyglau - yn rhestru'r holl bethau maen nhw angen i dyfu fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

Yr enw ar y rhestr hir yma yw CCUHP. tinyurl.com/CCFWPDFposter



Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Dysgu am Gomisiynydd Plant Cymru:

## Prif weithgaredd

Bydd hyn yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen – mynediad i'r rhyngrwyd neu boster hawliau.

## Comisiynydd

Gallwch chi esbonio bod gennym ni berson o'r enw Comisiynydd Plant yng Nghymru, ac mai eu gwaith nhw yw sefyll i fyny dros blant a phobl ifanc, i helpu i sicrhau eu bod nhw'n cael eu hawliau. Gallwch chi weld llun ohonyn nhw yma, a chael gwybodaeth amdanyn nhw yma, gan gynnwys fideo fer - yma.
Ar ôl gwylio'r fideo, gofynnwch i'r grŵp beth ddysgon nhw.

Gallwch rannu'r fideo yma i grynhoi CCUHP a CPC

## Crynodeb

Ar ôl gwylio hwn gofynnwch i'r grŵp beth ddysgon nhw.



Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

SCOUTS

Gweithgaredd 3

10-14 oed

# Cwblhau'r her i gael bathodyn

## Paratoi

Bydd gweithgaredd i) yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen – papur, peniau, creonau.
Bydd gweithgaredd ii) yn cymryd 60 munud; Byddwch chi angen – mynediad i'r rhyngrwyd.

## Gweithgaredd

Er mwyn cael bathodyn, rhaid i'r Sgowtiaid wneud pedwar peth:

i) Cwblhau'r prif weithgaredd a thynnu lluniau Corff o Hawliau.
ii) Bod yn rhan o DRI o'n Materion Misol - (mae pob un yn cymryd 20/30 munud a bydd angen mynediad i'r rhyngrwyd arnoch chi)
https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/mater-y-mis/

## Crynodeb

Ar ôl gwneud y dasg hon gofynnwch i'r grŵp beth ddysgon nhw.



Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

EXPLORERS

I gyflawni'r nodau a amlinellwyd yn y cyflwyniad mae gennym ni rai opsiynau i chi eu rhannu gyda'r Anturiaethwyr. Cewch chi benderfynu ydych chi am wneud hynny mewn un sesiwn, neu mewn nifer o sesiynau sydd gennych chi gyda'r grŵp.

# Dysgu llawer am CCUHP

**Yn achos pobl ifanc rydyn ni'n defnyddio iaith hawliau. Mae pawb ohonon ni'n cael ein geni gyda Hawliau Dynol, ond mae gan blant a phobl ifanc restr ychwanegol o hawliau, sef Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – sydd ar gyfer pawb o 0 – 18 oed.**

## Prif weithgaredd

**Bydd hyn yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen – papur A4, peniau, a chopïau o'r poster hawliau neu'r pecyn symbolau (gweler yr atodiad)**

## Corff o Hawliau

**i) Lluniwch amlinelliad o berson sinsir ar bapur A4**

**ii) Meddyliwch am 5 peth mae ar blant eu hangen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel – dyna beth yw hawliau!**

**iii) Ysgrifennwch nhw tu mewn i'r person neu defnyddiwch hyn yn gyfle i ddefnyddio deunyddiau celf a chrefft e.e. papur newydd/cylchgronau i gael hyd i eiriau/luniau sy'n dangos beth sydd ei angen ar blant i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel**

**iv) Mynnwch gopi o'r poster "Deall Eich Hawliau" neu'r Pecyn Symbolau**

**v) Edrychwch i weld a ydy'r erthyglau (hawliau) yn cyfateb i'r pum peth rydych chi wedi'u nodi**

**vi) Nodwch unrhyw hawliau eraill rydych chi'n meddwl sy'n bwysig i dyfu i fyny'n "hapus, yn iach ac yn ddiogel"**

**vii) Gallwch ychwanegu enwau pobl tu allan i'r person sy'n eich helpu i gael eich hawliau e.e. rhieni, athrawon, heddlu ac ati.**

**Rhowch gyfle i'r grŵp rannu eu darluniau a'u hawliau ac atogffwch nhw y gallan nhw ychwanegu'r Comisiynydd Plant at enwau'r bobl sy'n eu helpu i gael eu hawliau.**

PTO

# Dysgu llawer am CCUHP

## Gweithgaredd ychwanegol

Camu Allan - content/uploads/2022/05/Camu-Allan-Dwyieithog.pdf
Bydd hyn yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen y daflen uchod a siswrn

## Crynodeb

Atgoffwch y plant fod gan bawb ohonyn nhw hawliau a bod CCUHP ar gyfer pob plentyn a pheson ifanc ar draws y byd.

Yr enw ar y rhestr hir yma yw CCUHP. tinyurl.com/CCFWPDFposter



Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

EXPLORERS

Gweithgaredd 2

14-18 oed

# Dysgu am Gomisiynydd Plant Cymru:

## Prif weithgaredd

Bydd hyn yn cymryd 20 munud; Byddwch chi angen – mynediad i'r rhyngrwyd neu boster hawliau.

## Eisiau neu Angen

Gallwch chi esbonio bod gennym ni berson o'r enw Comisiynydd Plant yng Nghymru, ac mai eu gwaith nhw yw sefyll i fyny dros blant a phobl ifanc, i helpu i sicrhau eu bod nhw'n cael eu hawliau. Gallwch chi weld llun ohonyn nhw yma, a chael gwybodaeth amdanyn nhw yma, gan gynnwys fideo fer - yma.
Ar ôl gwylio'r fideo, gofynnwch i'r grŵp beth ddysgon nhw.

Gallwch rannu'r fideo yma i grynhoi CCUHP a CPC

## Crynodeb

Ar ôl gwylio hwn gofynnwch i'r grŵp beth ddysgon nhw.



# Cwblhau'r her i gael bathodyn

## Paratoi

Ar gyfer gweithgaredd i) Bydd angen i Anturiaethwyr ymweld â grŵp arall. Bydd gweithgaredd ii) yn cymryd 60 munud; Byddwch chi angen – mynediad i'r rhyngrwyd.

## Gweithgaredd

Er mwyn cael bathodyn, rhaid i'r Anturiaethwyr wneud pedwar peth:

i) Cyflwyno un o weithgareddau CCUHP i grŵp iau e.e. Gwiwerod, Afancod, Cenawon neu Sgowtiaid.

ii) Bod yn rhan o DRI o'n Materion Misol - (mae pob un yn cymryd 20/30 munud a bydd angen mynediad i'r rhyngrwyd arnoch chi) https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/mater-y-mis/

## Crynodeb

Ar ôl gwneud y dasg hon gofynnwch i'r grŵp beth ddysgon nhw.



Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Beth nesa?

## Er mwyn cael y bathodyn

Llongyfarchiadau i'ch Grŵp ar gwblhau'r Her Hawliau!

I dderbyn eu Bathodyn Her Hawliau haeddiannol, gallwch eu harchebu gan ScoutsCymru drwy e-bostio admin@scoutscymru.org.uk

Cofiwch gynnwys nifer y bathodynnau sydd eu hangen ar gyfer eich Grŵp.

Mae ennill y bathodyn yn ffordd wych i'ch aelodau ddangos eu hymrwymiad i ddeall a chynnal hawliau plant.




## Bathodyn a chyfeirio ymlaen

Cefnogwch blant a phobl ifanc i gael eu clywed trwy fod yn rhan o’r Materion Misol – gweler yma – gall arweinwyr grwpiau roi adborth i’r rhain trwy ffurflen adborth SNAP ar-lein.





Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Atodiad

**Posteri a'n cân - yma**

**Llyfrau sy'n cysylltu â Hawliau Plant - yma**

**Posteri – yma – yn cynnwys posteri hygyrch**

**Pecyn symbolau – yma – gallwch chi anfon e-bost aton ni, a byddwn ni'n anfon pecyn atoch chi i'w ddefnyddio yn eich gweithgareddau.**

**Adnodd Gwneud Gwahaniaeth – Canllaw i bobl ifanc ar weithredu – yma**

**Gweithgareddau cysylltiedig â'r Alban i sgowtiaid – yma**

**Modiwl dysgu Hwb - yma**

**Dysgu proffesiynol - yma**

**Os cewch chi unrhyw drafferthion gyda'r dolenni yma, rhowch wybod i ni - post@complantcymru.org.uk**



Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Diolch

## Ymunwch â'r Antur

## Join The Adventure

01446 795277

admin@scoutscymru.org.uk

scoutscymru.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig 522572

Scouts Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales